

# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



---

Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**  
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 21 Chwefror 2022 am 7:00pm.

**YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Heather Williams (Maer),  
Menna Jones, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, Gavin Harris,  
Ethan Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, a Mike van  
der Eijk  
Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.  
Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun  
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys  
Marian Rees – Cyfieithydd

## **195. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod. Mynegwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Jabez Redfern Oakes ar ei briodas yn ddiweddar ac i'r Cynghorydd Ifan Wyn yn dilyn genedigaeth ei fab.

Bu Aelodau'r Cyngor Tref yn treialu cyfarfodydd hybrid drwy is-bwyllgorau a diolchwyd iddynt am gymryd rhan ac am eu hadborth. Byddai cyfarfodydd hybrid yn parhau i gael eu profi a'u treialu.

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Christine Ellis, Rachel Lewington, Jabez Redfern Oakes ac Ifan Wyn.

## **196. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## **197. CYFLWYNIAD GAN DARREN MILLAR AS**

Croesawodd y Maer Darren Millar, Aelod o'r Senedd dros Orllewin Clwyd, i'r cyfarfod. Diolchodd i'r Maer am y croeso. Yn ei gyflwyniad gwnaeth Mr Millar sylw ar y canlynol: agweddau ar y GIG; cynigion amgylcheddol a'r posibilrwydd o godi tâl am deithio ar draffyrdd; treth twristiaeth; a'i gefnogaeth i'r cynnig am Statws Parc Cenedlaethol i Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Anogwyd y Cyngor Tref i gymryd rhan yn yr amrywiol gynigion ac ymateb fel y bo'n briodol. Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac ymatebodd Mr Millar.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r cyflwyniad.*

## **198. CODI'R GWASTAD – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Rhoddodd Gareth Roberts, James Evans a Sandra Sharp o Dîm Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych drosolwg a diweddariad ar gais etholaeth Gorllewin Clwyd i Gronfa Codi'r Gwastad. Atgoffwyd yr Aelodau mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer cais Gorllewin Clwyd, a fyddai'n werth hyd at £20m (gyda £10m i'r ddau Gyngor). Roedd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i gefnogi'r prosiectau o fewn ei ffin a oedd yn cynnwys prosiectau Tir y Cyhoedd Sgwâr Sant Pedr, a Chae Ddol a'r coridorau gwyrdd. Hysbyswyd yr Aelodau fod dogfennaeth y cais terfynol yn cael ei chadarnhau a

chostau'r prosiectau'n cael eu diweddarau. Roedd swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Conwy yn gweithio'n agos i sicrhau bod y cais yn barod i'w gyflwyno ar ôl i'r cyfnod cyflwyno agor; roedd disgwyl dyddiad ar gyfer hyn. Er mai'r nod oedd cyflenwi'r prosiectau cyflawn, tynnwyd sylw at y ffaith y gallai fod angen ail-ystyried agweddau uchelgeisiol, oherwydd y cynnydd mewn costau, ond byddai hyn yn cael ei drafod gydag arweinwyr y prosiectau, fel y bo'n briodol. Roedd cronfa Codi'r Gwastad yn broses gystadleuol, ac ni ellid gwarantu cyllid.

Mewn trafodaethau, pwysleisiodd Cynghorwyr Cyngor Tref Rhuthun fod prosiectau Tir y Cyhoedd Rhuthun a Chae Ddol yn eang, yn gyfannol ac yn tynnu ar uchelgeisiau lleol ers amser maith. Roedd yn bosibl y gellid cwblhau rhai elfennau llai fesul cam o gronfeydd eraill. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan yr holl randdeiliaid i gefnogi'r amrywiol brosiectau yn Rhuthun yn cael ei hystyried a'i chasglu fel rhan o'r cais ehangach.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r cyflwyniad.*

### **199. ADRODDIAD Y MAER**

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Ionawr 2022. Yn ychwanegol, dywedodd y Maer wrth y Cynghorwyr Tref fod y digwyddiad plannu coed, a oedd i fod i ddiwydd yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos, wedi'i ohirio oherwydd llifogydd.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

### **200. ADRODDIADAU'R AELODAU**

Ystyriodd yr Aelodau adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

### **201. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**

Nodwyd adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda. Yn ychwanegol, canmolodd y Cynghorydd Emrys Wynne Gyfoeth Naturiol Cymru am fod mor wylidwrus o lefel yr afon Clwyd ac wrth Bont Howcyn yn dilyn penwythnos o law trwm, a diolchodd i staff Cyngor Sir Ddinbych a thriogion lleol am glirio'r llanast a'r coed a oedd wedi disgyn yn dilyn y gwyntoedd eithafol.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun.*

### **202. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2022 fel cofnod cywir yn amodol ar gywiro'r gwall teipograffyddol a ganlyn:*

- *Cofnod 181 – **Penderfynwyd** y byddai'r cyfyngiadau aros ar yr A525 (**nid A545**)*

### **203. MATERION YN CODI**

*Cofnod 164 a 176 – Cais am Gyfraniadau: yr Urdd.* Cynhaliwyd cyfarfod (drwy Zoom) rhwng yr Urdd a Chlerc y Dref; roedd disgwyl rhagor o wybodaeth gan yr Urdd.

*Cofnod 182 – Grŵp Partneriaeth Llifogydd Rhuthun:* Cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r grŵp ar 14 Chwefror 2022. Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyniad ar Gynlluniau Llifogydd Cymunedol; Glasdir oedd yr unig un o'r tair ardal llifogydd yn Rhuthun gyda Chynllun o'r fath; Roedd angen Wardeiniaid Llifogydd Gwirfoddol yn ardaloedd yr Afon Clwyd: Tref Rhuthun a'r Afon Clwyd: Lôn Fawr. Cadarnhawyd y byddai gohebiaeth yn cael ei dosbarthu yn yr ardaloedd llifogydd i annog cofrestru ar gyfer systemau rhybuddio am lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### **204. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022.*

#### **205. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022.*

#### **206. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022. Yn ychwanegol, dywedwyd fod yr Hen Lys:

- bellach yn fangre gymeradwy ar gyfer seremonïau priodas a phartneriaethau sifil
- bod arwydd allanol wedi'i osod uwchben drws yr Hen Lys. Rhagwelwyd y byddai'r costau (yr arwydd a'i osod) yn cael eu hysgwyddo o'r cynllun arwyddbyst.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022.*

#### **207. RHYBUDD O GYNIGION**

Cyflwynwyd y rhybuddion o gynigion a ganlyn i'r Cynghorwyr Tref eu trafod:

##### **Y Cynghorydd Mike van der Eijk**

'Bod Cyngor Tref Rhuthun, i gefnogi addewid Cyngor Sir Ddinbych, yn datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol, gan addo gweithio i wneud Rhuthun yn garbon niwtral erbyn 2030 fan bellaf. Yn unol â hyn, gofynnir i'r Cyngor Tref sefydlu Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol i weithio gyda'r gymuned leol, a fydd yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cyngor llawn drwy'r Pwyllgor Amwynderau, er mwyn cyflenwi polisi a chynllun gweithredu hinsawdd ac argyfwng'.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno ar y rhybudd o gynnig fel yr amlinellir uchod*

##### **Y Cynghorydd Ethan Jones**

'Bod staff Cyngor Tref Rhuthun yn cael diwrnod ychwanegol i ffwrdd o'r gwaith gyda thâl (gŵyl y banc) ar Ddydd Gŵyl Dewi o 2023 ymlaen'.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno mewn egwyddor ar y rhybudd o gynnig fel yr amlinellir uchod, yn amodol ar gael cyngor proffesiynol (cyfreithiol ac ariannol) a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cyngor Tref maes o law.*

#### **208. DYFODOL RHUTHUN**

Rhannwyd gwybodaeth gyda'r Cynghorwyr Tref am y rhaglen o ddigwyddiadau amrywiol i gefnogi arddangosfa bresennol Dyfodol Rhuthun a fyddai'n rhedeg tan 17 Mawrth 2022.

Roedd y digwyddiadau a drefnwyd yn cynnwys cyflwyniadau a sesiynau holi ac ateb, sesiynau sy'n canolbwyntio ar fusnesau a grwpiau cymunedol, sesiynau gydag ysgolion, gweithdai gyda myfyrwyr Co-Lab a gweithgareddu eraill fel Marathon Tynnu Lluniau a bore coffi.

**PENDERFYNWYD:** *nodir rhaglen o ddigwyddiadau i gefnogi arddangosfa bresennol Dyfodol Rhuthun.*

#### **209. PROSIECT ADFER CLOC TREF RHUTHUN – ADRODDIAD CYNNYDD**

Croesawodd y Cyngor Tref Fiona Gale a Rob Price o Weithgor Adfer Cloc y Dref i gyflwyno

adroddiad cynnydd a chyflwyniad ar y prosiect adfer a oedd yn brosiect sydd wedi'i gynnwys yn y cais Codi'r Gwastad ehangach. Diolchwyd i'r Gweithgor am ei ymrwymiad a'i waith caled yn hyrwyddo'r prosiect ac am y diweddariad cynhwysfawr.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad cynnydd a'r wybodaeth a gyflwynwyd.

#### **210. DWEUD EICH DWEUD: Y SIR DDINBYCH A GAREM 2022-27**

Nododd y Cyngor Tref yr ymgynghoriad presennol gan Gyngor Sir Ddinbych a oedd yn ceisio barn ar ei Gynllun Corfforaethol 2022-2027 ac a fyddai'n rhedeg tan ddydd Gwener 11 Mawrth 2022. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar themâu: Tai, yr Economi, Pobl Ifanc, Cymunedau Cysylltiedig, Yr Amgylchedd a'r Hinsawdd, Mynd i'r afael ag Amddifadedd, a Chyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n cael ei redeg yn dda.

**PENDERFYNWYD:** y dylai'r Pwyllgor Craffu ar Ddogfennau gyfarfod i drafod ymateb i'r 'Sir Ddinbych a Garem 2022-2027', ar ran Cyngor Tref Rhuthun.

#### **211. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT I GYNGHORAU CYMUNED A THREF**

Nododd y Cyngor Tref fod yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y canllawiau statudol drafft i gynghorau cymuned a thref. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 17 Mawrth 2022.

**PENDERFYNWYD:** y dylai'r Pwyllgor Craffu ar Ddogfennau gyfarfod i drafod ymateb i'r 'Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft i Gyngorau Cymuned a Thref' ar ran Cyngor Tref Rhuthun.

#### **212. ETHOLIADAU AR GYFER POB SEDD AR GYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED YN SIR DDINBYCH – DYDD IAU 5 MAI 2022**

Roedd amserlen yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar gyfer etholiadau lleol sydd i'w cynnal ar 5 Mai 2022 fel yr amlinellwyd gan Wasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ddinbych wedi cael eu dosbarthu.

**PENDERFYNWYD:** nodi amserlen yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar gyfer etholiadau sydd i'w cynnal ar 5 Mai 2022.

#### **213. DATGANIAD ARIANNOL**

Derbyniodd yr Aelodau'r datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2022.

**PENDERFYNWYD:** derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2022.

#### **214. CYFRIFON I'W TALU**

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo taliad yr eitemau a ganlyn.

OB	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu – Ionawr 2022	*	£180.00
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau Cyfrifo a Chyflogres – Chwefror 2022	*	£240.00
OB	Hill & Roberts	Cwblhau ffurflen TAW am y chwarter hyd at 31 Rhagfyr 2021	*	£180.00
OB	Kellelectrics	Ail-wefru Tŵr y Cloc	*	£846.00
OB	Smith of Derby	Gwirio'r cloc yn dilyn ail-wefru tŵr y cloc	*	£180.00
OB	Blanchere	Dychwelyd eitemau ar ddiwedd y tymor llogi	*	£2,160.00
OB	BT	Ffôn, band eang a darpariaeth y fewnwyd (Mawrth 2021 – Chwefror 2022 ac eithrio mis Medi 2021)	*	£745.25

**215. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod arferol nesaf fydd nos Lun 21 Mawrth 2022 am 7pm.*